

Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol

10 Gorffennaf 2019



Yn bresennol

Phil Coates & Rebecca Rees (Llywodraeth Cymru) Judith Oakley (Cyngor Abertawe), Nick Barcock (Dŵr Cymru), Martin Thomas (THLS), John Williams (Cyngor Ynys Môn), Alice Collier (Ystad y Goron), Stephen Williams (Cyngor Casnewydd), Alan Groves (Llywodraeth Cymru - Cynllunio), Rachel Mulholland (Cefas), Nicola Abrams & Inger Söderström (OPRED), Jillian Whyte (JNCC) Chris McMullon (Natural England), Deanna Groom (RCAHMW), Kevin Ashcroft, Lisa Philips & Lucie Skates (Cyfoeth Naturiol Cymru), Mike Jones (Asiantaeth yr Amgylchedd), Wayne Hope (Cyngor Sir Ddinbych), Suzanne Thomas (Llywodraeth Cymru - Twristiaeth), Jonathon Monk (MHPA), Claire Kavanagh (MMO), Andrew Brown (Y Gronfa Loteri Fawr), Helen Croxson (MCGA).

1. Cafodd y rhai oedd yn bresennol drosolwg o'r datblygiadau ers y cyfarfod diwethaf ac o'r diweddaraf ar y cynllun datblygu. Mae'r cynllun yn cael ei baratoi ar hyn o bryd a'i gyfieithu cyn ei gyflwyno i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i'w gymeradwyo, ac yna ei anfon at Ysgrifennydd Gwladol y DU . Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod â Defra am y cynllun ers amser, a bydd y broses gynllunio yn dod i ben dros yr haf. Pan fydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi bydd yn dod gyda cyfres o ddogfennau atodol gan gynnwys Adroddiad Crynodeb o Newidiadau, Gwerthusiad Cynaliadwyedd, datganiad ôl-fabwysiadu Arfarniad o Gynaliadwyedd, Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd, Canllawiau Gweithredu a Fframwaith Monitro a Chofnodi.
2. Rhoddwyd diolch i'r grŵp am eu mewnbwn i'r Canllawiau Gweithredu oedd yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd er mwyn i swyddogion o fewn Llywodraeth Cymru ddod â'r broses i ben. Bydd y Canllaw Gweithredu a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cael ei ddsbarthu i'r Grŵp gyda'r rhybudd bod y posibilrwydd o'i newid tan i'r cynllun gael ei dderbyn yn derfynol. Mae llawer o adborth wedi dod i law gan y grŵp hwn a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol, ar y Canllaw Gweithredu. Rydym wedi ystyried yr holl sylwadau a ddaeth i law, fodd bynnag, ni fydd y Canllaw Gweithredu yn mynd i'r afael â phopeth yn y fersiwn cyntaf.
3. Gofynnwyd am adborth gan y grŵp ynghylch rhoi'r cynllun ar waith yn ymarferol o'r cyfnod y caiff ei fabwysiadu ac y daw i rym. Pa gymorth pellach allai Llywodraeth Cymru ei gynnig i awdurdodau. Bu aelodau y grŵp yn cynnig awgrymiadau i Lywodraeth Cymru eu hystyried.
4. Holwyd a ellid mabwysiadu'r cynllun fesul cyfnod i roi mwy o amser i Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol baratoi. Dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd cyfle i gyflwyno'r cynllun fesul cam gan, yn statudol, y byddai'n dod i rym ar ddiwrnod cwblhau/mabwysiadu. O'r cyfnod hwn byddai'n rhaid i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud drwy gydymffurfio â'r cynllun ac mae hyn yn cynnwys unrhyw benderfyniadau

sydd eisoes wedi'u mabwysiadu ond heb eu penderfynu, ceisiadau agored, gan ddilyn yr un broses ag ar gyfer cynllunio tir. Byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi cymaint o rybudd ymlaen llaw â phosib ynghylch y dyddiad mabwysiadu terfynol a'r datblygiadau o ran cwblhau'r cynllun, i geisio helpu gyda'r cyfnod pontio, a byddent yn ystyried unrhyw fesurau cefnogi pellach i helpu'r ymgeiswyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

5. Cyflwynwyd trosolwg o'n gwaith ar fframwaith Monitro a Chofnodi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Cytunwyd i sefydlu is-grŵp i helpu i ddatblygu dangosyddion ar gyfer ein gwaith Monitro a Chofnodi, a gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer y grŵp. I ddatblygu ein dull o weithio roeddem yn chwilio am wybodaeth gan aelodau o'r grŵp ynghylch yr hyn oeddent eisoes yn ei gasglu ar gyfer trefnau eraill a'u profiadau o hyn.

Y dyddiad a awgrymwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf oedd mis Hydref, ar oddeutu y dyddiad y disgwyllir mabwysiadu'r cynllun.

Ymholiadau at: Rebecca.Rees2@llyw.cymru